Penmachno & Dolwyddelan Walks 5/1/08 5:23 PM Page 16

# 4 Melin Penmachno - Fedw Deg

# 4 Penmachno Mill - Fedw Deg

**Pellter:** 8km / 5milltir, tua 2.5 -3awr
**Graddfa:** Cymedrol gyda dringo graddol
Man cychwyn ac ychydig o le parcio: Tynnwch i mewn oddi ar ffordd y goedwig, cyf grid: SH807531 (Neu parciwch yng Nghaffi Rhaeadr Conwy ar gyffordd yr A5 a B4406)
**Crynodeb:** Coedwig a rhaeadr gyda golygfeydd eang

## Y Daith Gerdded

**1.** Ewch yn ôl i'r ffordd a throi i'r dde ac yn ôl tua'r afon. (Sylwch ar bont y ceffylau pwn o'r canol oesoedd, a elwir y Bont Rufeinig yn ymyl pont y ffordd). Yn union cyn y bont, trowch i'r dde ac i'r llwybr arwyddedig gan gerdded ar i fyny. Pan fydd fforch yn y llwybr, cadwch i'r chwith gan gadw'r afon ar y chwith. Croeswch y gamfa a dal ymlaen. Pan fydd ffens yn rhwystr ar y llwybr, croeswch y gamfa ar y dde ac i'r ffordd goedwig. Ewch i'r chwith a cherdded ar y llwybr llydan hwn am tua 1.5km. Gan anwybyddu'r llwybr llydan ar y chwith sy'n mynd i lawr i Benar (tŷ o'r 16fed ganrif), ewch ar y llwybr cul ar y dde (saeth melyn) pan fyddwch yn gallu gweld adeiladau Benar yn union o danoch.

**2.** Dilynwch y llwybr naturiol ar i fyny, croesi'r nant a dal ymlaen hyd at ffordd y goedwig. Ewch i'r chwith a dilyn y trac wrth iddo wyro i'r dde gan ddringo'n raddol. Gan anwybyddu bob llwybr ar y naill ochr a'r llall, daliwch ar y brif ffordd ac ar i fyny. (Cymerwch ofal rhag y beicwyr sy'n ymuno â'r llwybr am gyfnod). Yn syth ar ôl mynd heibio'r llannerch sydd ar y dde, lle tynnwyd y gro, mae'r trac yn gwyro i'r chwith ac ar i lawr. Cewch olygfeydd gwych o Ddyffryn Lledr ac Eryri ar y llaw dde. Daliwch ymlaen ar y trac hwn gan anwybyddu unrhyw lwybrau a llwybrau beiciau sy'n croesi.

**3.** Ble mae'r llwybr llydan hwn yn fforchio, yn syth ar ôl y rhwystr metal (sydd ar agor yn arferol), trowch i'r dde oddi ar y llwybr i'r llwybr naturiol, cul. Daliwch ymlaen ar y llwybr hwn ac i lawr i'r ffordd.

*Ar un adeg y llwybr hwn oedd y brif ffordd i Fedw Deg, cartref y marchog canoloesol Grufydd ap Dafydd Coch y mae ei ddelw garreg, yn gwisgo arfbais lawn, yn gorwedd yn eglwys Sant Mihangel, Betws-y-coed. Dywedir mai ar hyd y llwybr hwn y cludwyd ei gorff i'w gladdu.*

**4.** Ewch i'r dde a dilyn y ffordd y tu uchaf i'r afon a heibio Rhaeadr Fachno (i weld y rhaeadr, ewch ar y llwybr arwyddedig) am tua 1.5km ac yn ôl i'r cychwyn.

*Roedd Rhaeadr Machno a Rhaeadr y Graig Lwyd gyfagos yn atyniadau poblogaidd yn Oes Fictoria. Mae'r giât dro (tâl £1) yng Nghaffi Rhaeadr Conwy Café yn rhoi mynediad at Raeadr Lwyd yn ystod cyfnod golau dydd.*




**Distance:** 8km / 5miles, allow 2.5 -3hrs
**Grade:** Moderate with some steep climbs
**Start and limited parking:** Pull-in off forest track, grid ref: SH807531 (Alternative parking at Conwy Falls cafe, at junction of A5 and B4406)
**Summary:** Forest and falls with wide views

## The Route

**1.** Return to the road and turn right back towards the river. (Notice the medieval pack-horse bridge, known as Roman Bridge, alongside the road bridge). Just before the bridge turn right onto a signed footpath, climbing uphill. Where the path forks keep left, walking with the river on the left. Cross a stile and continue ahead. Where a fence bars the way cross a stile on the right onto a forest track. Turn left and walk along the track for approximately 1.5km. Pass a track on the left down to the farm buildings of Benar (dating from 16th century) then take a narrow footpath on right (yellow arrow) when the buildings are directly below.

**2.** Follow the natural path uphill, crossing a stream, and continue to a forest track. Turn left and follow the track as it swings right then steadily climbs. Ignore paths joining on either side and continue uphill on main track. (NB Beware of cyclists as a bike trail joins the track for a short section). Just after passing a clearing on the right where gravel is being removed, the track bears left downhill, with good views across the Lledr Valley to Snowdonia on the right. Continue on this track, ignoring footpath and bike trail that cross the route.

**3.** Where the main track forks, just beyond a metal barrier (usually open), turn right off the track onto a narrow natural path, descending the hillside. Continue on this path down to the road.

*This path was once the main route to Fedw Deg, home of medieval knight Gruffydd ap Dafydd Goch whose stone effigy in full armour lies in St Michael's church, Betws-y-coed. His body was reputedly carried down this track for burial!*

**4.** Continue on this path down to the road. Turn right and follow the road above the river past the Machno Falls (detour along signed path to view the falls) for about 1.5km back to the start.

*The Machno and nearby Conwy Falls were popular Victorian beauty spots. A turnstile (£1 fee) at the Conwy Falls Café gives access to the Conwy Falls during daylight hours.*